



DATGANIAD IAITH GYMRAEG YR HAFREN

Sylwer bod Yr Hafren yn cael ei reoli gan grwp o Golegau NPTC sydd â Chynllun Iaith Gymraeg a baratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (Dyddiad Cymeradwyo 21/10/14) ac mae hyn yn cynnwys Yr Hafren. Mae'r datganiad polisi hwn yn **YCHWANEGOL** i'r cynllun manwl.

Mae'r Hafren yn cydnabod bod gan yr iaith Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru ac y dylid cael ei drin yr un mor ffafriol a'r iaith Saesneg. Dylai pobl yng Nghymru gael byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dewis hynny.

Rydym yn cynhyrchu, hyrwyddo a chyflwyno gwaith yn Saesneg, yn Gymraeg ac yn ddwyieithog. Byddwn yn parhau i gyd-weithio yn iaith dewisol yr artistiaid yr ydym yn gweithio gyda hwy.

Rydym yn sefydliad sy'n cefnogi ac yn annog hygyrchedd i'n rhaglenni a'n gwasanaethau ac mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaeth cyson i'n cynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith yn yr iaith y bydden nhw'n ei ddewis.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn anelu at ddarparu safon cyfartal o wasanaeth yn y ddwy iaith.

Rydym yn gweld y polisi hwn fel rhan o ymrwymiad blaengar oddi mewn y celfyddydau i hyrwyddo Cymru dwyieithog.

Mae'r polisi hwn yn ceisio:

- Cynnig gwasanaeth sy'n gyfartal i siaradwyr Cymraeg a Saesneg
- Deall a chydabod natur dwyieithog Cymru
- Rhoi mynediad ehangach i'n gweithgareddau
- Codi ein proffil yng Nghymru a chydabod perchnogaeth gan siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd
- Cryfhau ein gallu i gwrdd â gofynion cyllidwyr a phartneriaid eraill
- Sicrhau cydymffurfiaeth o'r manylion ieithyddol a diwylliannol mewn deddfwriaeth ac arweiniad arfer dda fel y cymeradwywyd gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg.

Cyfathrebu Allanol

Hunaniaeth Corfforaethol

Mae'r gair 'Hafren', pan ddefnyddir i nodi ein henw, eisoes yn ddwyieithog. Bydd delwedd gyhoeddus a hunaniaeth corfforaethol Hafren yn gwbl ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys defnyddio strap linellau, pennawd ar lythyrau, cardiau busnes, slipiau cyfarch a deunydd ysgrifennu, llofnodion e-bost, arwyddion a phob dogfennaeth busnes arall.

Arwyddion

Bydd holl arwyddion mewnol, allanol ac electroneg (gan gynnwys arwyddion dros dro a arddangosir am fwy na 3 diwrnod gwaith) yn ddwyieithog.

Bydd dyluniad yr arwyddion hyn yn rhoi ystyriaeth lawn i'r canllawiau ar dyluniad dwyieithog fel y gyhoeddir gan Comisiynydd yr Iaith Gymraeg, a bod yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

Llenyddiaeth Corfforaethol a Marchnata

Bydd pob cyhoeddiad corfforaethol printiedig ac unrhyw ddogfen a fwriedir ar gyfer cyfathrebu allanol cyffredinol yn ddwyieithog.

Bydd ein prif llenyddiaeth marchnata yn cynnwys gwybodaeth cyffredinol gwbl ddwyieithog (e.e dyddiadau, amseroedd, gwybodaeth gyhoeddus ac ati). Ble bydd y perfformiad yn Saesneg, bydd crynodeb ar gael yn y Gymraeg, pan fydd y perfformiad yn Gymraeg, bydd crynodeb ar gael yn yr iaith Saesneg. Ceir eithriadau i'r egwyddor gyffredinol hwn er engraifft os yw'r ymgyrchoedd hysbysebu neu'r cyhoedduswydd wedi ei anelu at gynulleidfaoedd y tu allan i Gymru.

Derbynnir llenyddiaeth marchnata gan gwmnïau, dosbarthwyr ffilmiau a chelfyddydau ac ati yn Saesneg.

Bydd yr holl arddangosfeydd allanol, stondinau gwybodaeth cyhoeddus ac arddangosfeydd yn trin y ddwy iaith yn gyfartal, ac eithrio lle mae trefnwyr y digwyddiad yn rhestru y dylai un o'r ddwy iaith fod yn bennaf.

Byddwn yn cofnodi gwybodaeth am iaith ohebu ein cwsmeriaid pryd bynnag y gallwn, a byddwn yn defnyddio'r data hwn i gyfathrebu yn eu iaith ddweisiol nhw.

Arolygon, Holiaduron a Grwpiau Ffocws

Bydd pob arolwg a holiadur a gynhyrchir gan Hafren yn ddwyieithog.

Bydd yn ofynnol i unrhyw artist, cwmni neu sefydliad marchnata sy'n dymuno dosbarthu arolygon a holiaduron i ddefnyddwyr Yr Hafren gael caniatad blaenorol ganddon ni. Byddwn yn gwneud penderfyniad ar y pryd i ganiatáu dosbarthiad holiaduron sydd heb eu cyfieithu.

Swyddfa

Ein nod yw sicrhau bod gan cyfran o'n staff sy'n gweithio gyda cwsmeriaid (cynorthwywyr gwirfoddol, tîm hyrwyddo a masnachu a staff y swyddfa docynnau) y gallu i gyfathrebu'n ddwyieithog.

Rydyn ni'n yn ymrwymo i sicrhau y bydd ganddon ni staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i gefnogi ein rhaglenni Iaith Gymraeg.

Bydd y staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo bathodynau 'Iaith Gwaith'.

Gohebiaeth Ysgrifenedig

Croesaw ohebiaeth ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn yr iaith gyfathrebu gwreiddiol lle bo'r modd.

Cyfathrebu dros y ffôn

Mae gan Yr Hafren peiriant ateb gyda neges ddwyieithog.

Bydd ymateb cychwynnol yn cael ei wneud yn ddwyieithog. Os nad yw'r aelod o staff sydd ar ddyletswydd yn siarad Cymraeg, byddwn yn rhoi'r dewis i'r cwsmer gael ei cyfeirio at siaradwr Cymraeg ond efallai na fyddai hyn yn bosibl pob tro.

Anogir aelodau staff sy'n gallu'r Gymraeg adael negeseuon dwyieithog.

Marchnata Digidol a Chymdeithasol a Thechnoleg Gwybodaeth

Mae gan Yr Hafren safle we ddwyieithog yn unol â chanllawiau Comisiynydd yr Iaith Gymraeg. Lle mae cynnwys yn cael ei gynnwys o ffynonellau allanol gan gynnwys cwsmeriaid, sefydliadau diwylliannol eraill, bydd ein cynnwys creadigol ac ati yn cael ei dderbyn yn y Gymraeg neu'n Saesneg yn unig. Derbynnir pyst blog yn Gymraeg neu'n Saesneg ac ni fydd rhain yn cael eu cyfieithu. Bydd eitemau newyddion yn cael eu cyfieithu pryd bynnag y bo modd.

Bydd cwsmeriaid yn gallu dewis yr iaith Gymraeg fel un o'r dewisiaidau cyfathrebu.

Bydd y staff rheini sydd yn gweithio yn y maes cyfathrebu ysgrifenedig, drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn derbyn unrhyw feddalwedd angenrheidiol, gan gynnwys ffontiau Cymraeg, gwirwyr sillafu Cymraeg ac ati.

Bydd taflenni yn cael eu hanfon allan yn iaith dewisiol y cwsmer ble bynnag y bo modd.

Bydd ein tudalenau cymdeithasol yn cynnwys cymysgedd o Saesneg ynghyd â chynnwys gwreiddiol yn y Gymraeg.

Bydd y cynnwys a ddarperir gan ffynonellau allanol yn cael ei bostio yn yr iaith a ysgrifenydd.

Cysylltiadau â'r Cyfryngau

Cyhoeddir cysylltiadau'r cyfryngau yn iaith ddewisiol y cyfryngau, newyddiadurwr neu'r cyhoeddwr.

Lle bo'r modd, byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i gynnal cyfweiliadau gyda'r wasg a'r cyfryngau Cymraeg.

Recriwtio

Mae ein hyrwyddiad recriwtio allanol yn cael ei wneud gan y grwp NPTC.

Bydd pob hysbyseb allanol yn ddwyieithog ac eithrio swyddi lle mae'r Gymraeg yn ofyniad hanfodol. Bydd y rhain yn cael eu hysbysebu yn y Gymraeg yn unig gyda chrynodeb o'r Saesneg.

Byddwn yn nodi swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol a'r rhai lle mae'n ddymunol, i nodi y lefel a ddisgwylir ym mhob achos a llunio disgrifiadau swydd a manylion personél fel sy'n briodol.

Bydd rheolwyr sy'n gyfrifol am recriwtio staff yn asesu eu h anghenion ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg wrth wneud apwyntiadau a byddant yn parhau i adolygu'r agwedd hon drwy'r system recriwtio.

Gwasanaethau Cyfieithu

Defnyddiwn gyfieithwyr sydd wedi eu cymeradwyo gan Comisiynydd y Gymraeg neu sydd â dealltwriaeth arbenigol o'r pwnc.

Bydd cyfieithiad mewnol yn cael ei ddarparu gan Grŵp NPTC lle bo'n briodol.

Cyfathrebu Mewnol

Dogfennau, contractau a chyfathrebiadau eraill

Rhaid i'r holl ddogfennau mewnol, contractiau a chyfathrebiadau eraill gael eu cynhyrchu yn yr iaith Gymraeg a Saesneg yn ôl ein disgrisiwn oni bai eu bod yn cyfeirio at unigolyn ac mae'r unigolyn hwnnw wedi mynegi dewis un iaith dros y llall.

Cyfarfodydd Rheoli Strategol

Rhaid i'r rhaglenni a chofnodion y cyfarfodydd rheoli gael eu cynhyrchu yn Saesneg oni bai y gofynnir amdanynt fel arall.

Staff sy'n Siarad Cymraeg

Rydyn ni'n parchu bod rhai o'n staff yn siaradwyr Cymraeg ac rydyn ni'n annog ein staff i gyfathrebu yn yr iaith o'u dewis nhw yn y gweithle.

Ni fyddwn yn disgwyl i unrhyw aelod o staff sy'n siarad Cymraeg weithredu fel cyfieithwyr ar gyfer cyfathrebu neu ar lafar oni bai bod hyn yn ran o'u swydd ddisgrifiad ac y bod ganddynt sgiliau angenrheidiol i gyflwyno'r gwasanaeth hwn o safon uchel.

Cyrsiau Staff

Rydyn ni'n annog y staff sy'n wynebu'r cwsmer i ddysgu Cymraeg neu i fynychu cyrsiau gloywi iaith ac yn cynnig cymorth ariannol i fynychu gwersi Cymraeg yn eu hamser gwaith, lle bydd y cyllid ac adnoddau yn caniatáu.

Hysbysu Staff

Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yr NPTC wedi'i gynnwys ym mholisiau a gweithdrefnau'r cwmni. Mae ar gael i'r staff cyfan ei weld ar y mewnrwyd.

Bydd Datganiad Polisi Yr Hafren ar gael ar ein gwefan ar gyfer staff a'n cwsmeriaid.

Adolygu'r Polisi

Bydd Grŵp y NPTC yn adolygu'r Cynllun Iaith Gymraeg ar lefel Strategol yn flynyddol a gwneir gwelliannau a newidiadau lle bo modd.

Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer Gwella

Dylid cyfeirio cwynion sy'n gysylltiedig â pholisi Grŵp y NPTC, neu awgrymiadau ar gyfer gwelliant, gael ei cyfeirio at: Prif Swyddog Gweithredol y Grwp NPTC.

HAFREN

HAFREN BOX OFFICE

The Hafren, Llanidloes Road,
Newtown, Powys SY16 4HU
01686 614 555

HAFREN ONLINE

boxoffice@thehafren.co.uk
www.thehafren.co.uk

[facebook.com/Hafren Newtown](https://facebook.com/HafrenNewtown)
[twitter.com/@Hafren_newtown](https://twitter.com/Hafren_newtown)
youtube.com/user/TheatrHafren

